# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Neuadd Llanrhaeadr**

**Neuadd Llanrhaeadr**
**Llanrhaeadr**
**Dinbych**
**LL16 4NL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Neuadd Llanrhaeadr

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Roberts Homes North Wales Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 39 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 03 Mawrth 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r cartref yn gynnes ac yn groesawgar ag awyrgylch heddychlon a chyfeillgar. Mae'r bobl yn hoffi byw yn y cartref, yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael gofal da. Mae'r cartref yn cael ei gynnal a'i gadw a'i addurno'n dda, a gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd. Mae cynlluniau personol y bobl yn rhoi cyfarwyddiadau da i'r staff gofal ac maent yn cynnwys mewnbwn gan y bobl a'u perthnasau neu gynrychiolwyr. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru os bydd newidiadau. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff gofal ei ddarparu'n unol â chynlluniau personol y bobl a'u hasesiadau risg unigol. Mae gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg hefyd. Mae rhai o'r staff yn siarad Cymraeg yn rhugl a gallant gynnig gofal a chymorth yn Gymraeg os bydd y bobl am iddynt wneud hynny.

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu da ar waith i helpu i redeg y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac mae'n goruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli'n dda. Mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff prosesau recriwtio diogel eu dilyn a bod pob aelod o'r staff yn parhau i fod yn addas i weithio yn y cartref. Mae'r staff yn y cartref wedi cael yr hyfforddiant gofynnol, ac yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau gofynnol i helpu'r bobl i gyflawni'r canlyniadau y maent am eu cyflawni. Mae'r rheolwr yn cefnogi'r staff yn dda drwy sesiynau goruchwylio un i un a phrosesau cyfathrebu da.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae bwydlen amrywiol i'r bobl ddewis ohoni. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wrth eu bodd â'r bwyd ac yn cael bwyta beth y maent yn ei hoffi, gan gynnwys gofyn am eitemau nad ydynt ar y fwydlen os byddai'n well ganddynt. Mae'r bobl yn hoffi eu hystafelloedd, a gallant eu personoli os byddant am wneud hynny. Yn yr ardal breswyl a'r ardal arbenigol i bobl â dementia yn y cartref, gall y bobl symud o gwmpas fel y mynnont, gyda chymorth gan y staff gofal lle bo angen. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i'r preswylwyr lle caiff adborth ar brofiadau'r bobl yn y cartref ei gasglu gan y tîm rheoli. Caiff yr adborth hwn ei ddadansoddi fel rhan o brosesau'r darparwr ar gyfer cynnal adolygiadau o ansawdd y gofal.

Mae'r darparwr yn rhagweld ac yn nodi dewisiadau ac anghenion iaith y bobl. Mae'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y cartref. Mae bwydlenni dwyieithog ar gael, ac mae'r preswylwyr wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chyfieithu'r bwydlenni. Mae fersiynau dwyieithog o'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael ym mhrif fynedfa'r cartref, yn ogystal â'r polisïau perthnasol ac asesiadau risg. Mae hyn yn cynnwys y polisi a'r weithdrefn cwynion, a ffurflenni adborth i deuluoedd ac ymwelwyr eu cwblhau. Clywsom y staff yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl drwy gydol y dydd, a hynny wrth roi gofal a chymorth ac wrth sgwrsio â'r bobl.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i aros yn iach ac i wneud yr hyn sy'n eu gwneud yn hapus. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael gofal da a'u bod yn hoffi'r staff gofal, sy'n ymwybodol o'u dewisiadau ac yn darparu gofal a chymorth mewn modd amserol a pharchus. Mae'r perthnasau yn disgrifio'r staff fel unigolion "*wonderful and caring*" gan ddweud, "*The skill and professionalism of the manager and the whole team in both the residential and dementia specialist units are truly impressive*". Dywedodd un arall, wrth sôn am ei anwylyd – "*Is well cared for and has made amazing progress*". Mae cyngor meddygol, gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol a gwasanaethau eirioli annibynnol ar gael i'r bobl mewn modd amserol pan fo'u hangen. Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gynlluniwyd mewn grwpiau neu'n unigol. Mae'r gwasanaeth wedi cyflogi cydgysylltydd gweithgareddau i ddatblygu'r gweithgareddau hyn ymhellach.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, ac maent yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar sut i ddiogelu pobl sy'n agored i niwed ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau'r darparwr o ran sut y dylid darparu'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff prosesau cywir eu dilyn ar gyfer unigolion y mae angen awdurdodiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid arnynt. Mae arferion a pholisïau hylendid da ar waith, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gael i ymwelwyr fel y bo angen. Mae

cyfarpar i ddiwallu anghenion llesiant y bobl yn y cartref. Mae'r uned arbenigol i bobl â dementia yn ddiogel. Mae'n defnyddio system mynediad drwy god allwedd ac mae ganddi ardd ddiogel ar wahân â digon o seddau.

## Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr yn casglu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys gan y bobl a'u teuluoedd neu gynrychiolwyr, i asesu a all y cartref ddiwallu anghenion y bobl cyn iddynt symud i mewn i'r cartref. Caiff y wybodaeth hon, ynghyd ag asesiadau risg unigol, eu defnyddio i ysgrifennu cynlluniau personol ar gyfer anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae'r cynlluniau yn cynnwys manylion am ddewisiadau gofal y bobl ac yn rhoi arweiniad i'r staff gofal ar sut i'w cefnogi. Maent yn hyrwyddo lefelau annibyniaeth presennol y bobl a sut y gall y staff eu helpu i gynnal y lefelau hynny. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd â'r bobl a'u perthnasau neu gynrychiolwyr a chânt eu diweddaru os bydd anghenion yn newid. Rhoddir gwybod i'r staff gofal am newidiadau yn ystod y cyfarfodydd trosglwyddo ar gyfer pob shifft, a gallant gael gafael ar y cynlluniau i'w darllen.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofalgar a sylwgar sydd wedi meithrin cydberthnasau da â nhw. Mae'r staff gofal yn siarad â'r bobl mewn modd caredig, tyner a pharchus, ac yn gwneud cyswllt llygaid ac yn gwenu. Mae'r staff gofal yn derbyn dewisiadau crefyddol ac ieithyddol y bobl ac yn annog y dewisiadau hynny. Gwelsom y staff yn sgwrsio ac yn chwerthin â'r bobl yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r staff gofal yn sicrhau bod gan y bobl le ac amser i weddïo cyn eu prydau, a hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg os byddai'n well ganddynt. Mae'r staff gofal yn gyfarwydd ag anghenion a dewisiadau'r bobl. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn darparu gofal yn unol â chynlluniau'r bobl a gwelsom fod pawb yn edrych yn drwsiadus, yn gwisgo dillad glân a thaclus, bod eu gwallt wedi'i frwsio a bod ganddynt ddwylo ac ewinedd glân. Mae awyrgylch y cartref yn hamddenol ac yn ddigyffro. Caiff y bobl eu hannog i dreulio eu diwrnod fel y mynnont. Caiff amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol eu cynnig os bydd y bobl am dreulio amser yn yr ardaloedd cymunedol.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod trefniadau diogel ar gyfer rhoi a rheoli meddyginiaethau a bod arferion hylendid da yn y cartref. Mae pob aelod o'r staff yn cael yr hyfforddiant perthnasol ac yn dilyn polisïau a gweithdrefnau ar gyfer atal heintiau a chynnal arferion hylendid da. Mae'r staff domestig yn glanhau'r cartref drwy gydol y dydd, ac mae cyflenwad da o gyfarpar diogelu personol (PPE) i'r staff ei ddefnyddio fel y bo angen. Mae'r uwch-staff gofal yn cael hyfforddiant ar roi meddyginiaeth a chaiff eu cymwyseddau eu gwirio'n rheolaidd. Mae'r rheolwr yn cynnal archwiliadau mewnol rheolaidd o drefniadau'r cartref ar gyfer rhoi meddyginiaethau, ac ymdrinnir ag unrhyw faterion a nodir yn ddi-oed. Cafodd y camau

gweithredu a nodwyd drwy archwiliad allanol o'r trefniadau ar gyfer rhoi, storio a rheoli meddyginiaethau gan weithwyr proffesiynol eu cwblhau mewn modd amserol gan y rheolwr.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn gynnes ac yn groesawgar, a cheir awyrgylch heddychlon a hamddenol ym mhob rhan ohono. Mae'r darparwr yn sicrhau bod y cartref a'r tir mewn cyflwr da. Roedd y staff cynnal a chadw ar y safle yn ystod ein hymweliad, yn ymgymryd â mân atgyweiriadau yn y cartref ac yn paratoi'r gerddi ar gyfer y Gwanwyn. Mae pob un o'r ystafelloedd gwely wedi'i haddurno'n hyfryd ac yn cynnwys y dodrefn a'r cyfarpar sydd eu hangen ar y bobl. Mae gan y bobl eitemau personol o ddodrefn a lluniau, ornamentau a gwrthrychau yn eu hystafelloedd sydd o bwys iddynt. Mae'r ystafelloedd ymolchi yn cynnwys y cyfarpar sydd ei angen ar y bobl i fwynhau cawod a bath pan fyddant am wneud hynny.

Mae'r ardaloedd bwyta cymunedol yn cynnwys digon o fyrddau bwyta a chadeiriau sydd wedi'u trefnu mewn ffordd sy'n annog amseroedd bwyd cymdeithasol i'r bobl. Mae'r byrddau wedi'u gosod yn briodol ar gyfer amseroedd prydau, er mwyn gwella'r profiad bwyta i'r bobl. Mae'r lolfeydd yn cynnwys digon o seddi i'r bobl. Mae rhai o'r bobl wedi dod â'u cadeiriau arbenigol eu hunain o'u cartref i'w defnyddio. Mae'r bobl yn hoffi eistedd yn y prif lolfeydd, sydd wedi'u harddurno'n hyfryd, yn olau ac wedi'u hawyru'n briodol yn y ddwy uned. Mae arwyddion dwyieithog ac arwyddion â lluniau yn helpu'r bobl i ddod o hyd i'w ffordd.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y caiff risgiau i'r bobl yn y cartref eu nodi ac y caiff mesurau eu cymryd i liniaru a lleihau'r risgiau hynny yn ôl yr angen. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau y caiff archwiliadau ac asesiadau risg rheolaidd eu cynnal o'r amgylchedd yn gyffredinol; ymdrinnir ag unrhyw faterion sy'n codi mewn modd amserol. Caiff yr holl gyfarpar arbenigol yn y cartref, gan gynnwys y lifft, ei wasanaethu, a'i brofi'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos y caiff gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd a phrofion o'r cyfleusterau eu cwblhau gan y staff cynnal a chadw. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys, er enghraifft, gwiriadau o dymheredd y dŵr a'r ystafelloedd, ymarferion tân, profi'r system clychau galw, gwirio'r cyfyngwyr ar y ffenestri. Mae gan y cartref sgôr hylendid bwyd dda sy'n adlewyrchu'r hyn a welsom yn ystod ein hymweliad arolygu. Mae'r rheolwr yn sicrhau y caiff anghenion symudedd a chymorth presennol y bobl eu nodi yn eu Cynlluniau Personol unigol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng. Caiff y cynlluniau hyn eu cadw ger mynedfa flaen y cartref, mewn bag y gall y Gwasanaethau Brys gael gafael arno'n hawdd, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau'r cartref ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr gwasanaeth drefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd er mwyn cefnogi'r rheolwr, edrych ar y cofnodion a siarad â'r bobl a'r staff. Gwelsom yr Unigolyn Cyfrifol yn cydgysylltu â'r staff cynnal a chadw am waith a oedd wedi'i gynllunio yn y cartref yn ystod ein hymweliad. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cefnogi'r rheolwr yn dda drwy sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd rheoli rheolaidd. Maent yn adolygu canfyddiadau o ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol gyda'i gilydd ac yn trafod y cynnydd at gwblhau unrhyw gamau gweithredu gofynnol. Mae'r broses ar gyfer yr adolygiad o ansawdd y gofal yn cynnwys adolygiadau mewnol manwl o gydymffurfiaeth y cartref â rheoliadau, yn ogystal â dadansoddiadau o adborth a gesglir yn rheolaidd am brofiadau'r bobl yn y cartref, eu perthnasau, y staff a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld.

Caiff y bobl eu cefnogi gan niferoedd priodol o staff yn ystod pob shifft. Weithiau caiff staff asiantaeth eu defnyddio i weithio shifftiau nos, ond maent bob amser yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau parhaol o'r staff. Mae'r rheolwr yn gofyn am yr un aelodau o staff asiantaeth, er mwyn sicrhau cysondeb a pharhad gofal i'r bobl. Mae'r darparwr yn mynd ati'n rhagweithiol i recriwtio i swyddi gwag, a chaiff aelodau newydd o staff eu fetio'n llawn cyn iddynt ddechrau gweithio yn y cartref. Mae'r rheolwr yn gofyn am dystiolaeth i ddangos bod pob aelod newydd o staff asiantaeth wedi'i fetio, wedi'i hyfforddi ac yn meddu ar brofiad addas cyn i'r aelod hwnnw weithio ei shifft cyntaf yn y cartref; mae aelodau newydd o staff asiantaeth yn cysgodi aelodau o staff parhaol yn ystod eu shifft cyntaf yn y cartref. Caiff gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) eu hailadrodd fel mater o drefn ar gyfer pob aelod o staff parhaol, gan gynnwys y rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r cofnodion yn dangos bod y rheolwr yn mynd ati'n rheolaidd i gadarnhau bod y staff wedi'u cofrestru o hyd â'u cyrff proffesiynol perthnasol.

Mae aelodau newydd o staff yn ymgymryd â chyfnod sefydlu sy'n cynnwys cysgodi aelod profiadol o staff a chwblhau amrywiaeth o hyfforddiant. Mae'r rheolwr yn monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant yn rheolaidd ac yn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant craidd diweddaraf. Mae'r pynciau a gaiff eu hastudio yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r rheolwr hefyd yn monitro sgiliau ymarfer ac arbenigedd y staff gofal, drwy arsylwi arnynt drwy gynnal hapwiriadau. Ymdrinnir ag unrhyw faterion ymarfer a nodir mewn modd amserol drwy sesiynau goruchwylio a thrwy ddiweddaru hyfforddiant. Mae pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd ac arfarniadau blynyddol i drafod unrhyw bryderon neu anghenion datblygu. Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg priodol i ymdrin ag unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau posibl ymhlith aelodau o staff ac o'r camau priodol a oedd yn cael eu cymryd i'w datrys.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/05/2024